**Fforwm Rhyngseneddol – Datganiad ar y Cyd**

Ar 25 Chwefror 2022, fe wnaethom ni fel Cadeiryddion, Cynullwyr ac Aelodau'r pwyllgorau perthnasol yn Senedd yr Alban, Senedd Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, gyfarfod yn Nhŷ'r Arglwyddi ar gyfer cyfarfod cyntaf y Fforwm Rhyngseneddol, yn dilyn gwahoddiad gan yr Arglwydd Lefarydd. Mae'r fforwm hwn yn olynu'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit a ddarparodd fforwm ar gyfer craffu ar y cyd ar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae parhad fforwm yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd cyfnewid barn ac arfer gorau parhaus rhwng ein deddfwrfeydd yn y fframweithiau newydd ar ôl Brexit.

Yn dilyn diweddariadau gan bob deddfwrfa, trafodwyd pwrpas a gwaith y Fforwm Rhyngseneddol yn y dyfodol a chytunwyd bod y Fforwm yn fan cychwyn pwysig ar gyfer deialog a chydweithrediad hanfodol rhwng seneddwyr. Bydd y Fforwm yn ceisio gwella gwaith craffu drwy gyfnewid gwybodaeth ar y cyd a thrwy geisio dull cyson o wella tryloywder ac atebolrwydd ar lefel Gweinidogion a rhynglywodraethol yn ein priod awdurdodaethau. Buom hefyd yn cyfnewid barn ar gysylltiadau rhynglywodraethol â Neil O'Brien AS, y Gweinidog Codi'r Gwastad, yr Undeb a'r Cyfansoddiad.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar y dechrau cadarnhaol hwn gyda chyfarfod arall yn niwedd 2022.

Yn bresennol

- Sinéad McLaughlin ACD, Cadeirydd, Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Dr Caoimhe Archibald ACD, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru
- Clare Adamson ASA, Cynullydd, Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, Senedd yr Alban
- Donald Cameron ASA, Dirprwy Gynullydd, Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, Senedd yr Alban
- Syr Bernard Jenkin AS, Cadeirydd, Pwyllgor Cyswllt, Tŷ'r Cyffredin
- Lloyd-Russell-Moyle AS, Aelod, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin
- Y Farwnes Drake, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi
- Yr Arglwydd Kinnoull, Cadeirydd, Pwyllgor Materion Ewropeaidd, Tŷ'r Arglwyddi